# Etholiad 2017 yng Nghymru

View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg

09/06/17

Gwelodd Etholiad Cyffredinol 2017 ddarlun seneddol Cymru yn newid, gyda'r Blaid Lafur yn ennill seddi oddi ar y Ceidwadwyr a Plaid Cymru yn ennill sedd olaf y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru. Dyma nifer y seddi a enillwyd yn yr etholiad a'r newid ers 2015:

– Llafur: 28 (i fyny 3)

– Ceidwadwyr: 8 (i lawr 3)


– Plaid Cymru: 4 (i fyny 1)

– Democratiaid Rhyddfrydol: 0 (i lawr 1)


# ETHOLIAD CYFFREDINOL 2017:
Y darlun gwleidyddol newydd yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

## Seddau yn San Steffan





## Seddau yn San Steffan **fesul Etholaeth**




## Seddau yn San Steffan fesul Etholaeth **wedi'u haddasu yn ôl y boblogaeth breswyl**

Gan ddefnyddio data poblogaeth Cyfrifiad 2011, mae ffiniau Etholaethau San Steffan wedi'u hail-lunio yn unol â hynny.

Mae pob etholaeth bellach yn cynrychioli'r boblogaeth breswyl yn gyfrannol.



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017
Arolwg Ordnans 100047295

Mae'r etholaethau tua'r un maint o ran nifer y preswylwyr, ond mae'r arwynebedd tir yn amrywio'n fawr, o'r ardaloedd gwledig mawr lle mae'r boblogaeth yn is i ardaloedd trefol llai lle mae'r boblogaeth yn uwch, yn enwedig yn y De.

Bwriad y ffeithlun yw dangos canlyniadau'r etholiad yng Nghymru trwy ddull **traddodiadol sy'n seiliedig ar arwynebedd tir**, a thrwy **ddull mwy cyfrannol gan ddefnyddio poblogaeth breswyl** yr etholaethau.

Mae'r mapiau yn y ffeithlun yn dangos y seddi a enillwyd gan bob plaid, ond mewn dwy ffordd wahanol iawn:

01. Map **traddodiadol yw'r cyntaf,** sy'n seiliedig ar etholaethau San Steffan yng Nghymru, lle y dangosir pob etholaeth yn ôl ei **harwynebedd tir**.

02. Mae'r **ail fap yn cynrychioli'r boblogaeth yn gyfrannol** ym mhob etholaeth. Gan gymryd y data ar boblogaeth breswyl o Gyfrifiad 2011, mae ffiniau etholaethau San Steffan wedi eu hail-lunio er mwyn **adlewyrchu'n well nifer y bobl sy'n byw ym mhob etholaeth**, ond gan gadw siâp ffiniau Cymru.

**Cartogram** yw'r ail fap, lle mae ardaloedd yng nghanolbarth Cymru, sydd â llai o breswylwyr, wedi eu crebachu.  Mae ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn uwch, fel y de-ddwyrain, yn enwedig yn ninasoedd Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, yng nghymoedd y De, ac yn y Gogledd yn ardaloedd Wrecsam a Sir y Fflint, wedi eu chwyddo.

---

Erthygl gan Sam Jones, David Millett a Dr Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.